Monmouthshire Local Nature Partnership

Partneriaeth Natur Lleol Sir Fynwy

# Edrychwch i fyny!

## Gallwch helpu i gadw ein Gwenoliaid Duon yn ein hawyr yn ystod yr haf





Mae Gwenoliaid Duon wedi gostwng gan **75%** ers 1995 yng Nghymru

# Adnabod y gwahaniaeth rhyngddynt

Canllawiau cyflym





### Gwennol y Glennydd

Rhannau uchaf llwyd-frown (dim pen-ôl gwyn), gwyn oddi tanodd a band brown tywyll amlwg ar draws y frest.

### Gwennol y Bondo

Y nodwedd amlycaf yw pen ôl gwyn a glân sy'n gwrthgyferbynnu gyda'r cefn a chynffon glasddu, sy'n amlwg iawn pan fydd yn hedfan.



### Gwennol

Y nodwedd fwyaf neilltuol yw chynffon hir gyda hollt dwfn a **"rhubannau"** tenau.

### Gwennol Ddu

Yn fwy na'r rhywogaethau eraill yma a heb fod yn perthyn iddynt. Mae ganddynt siâp neilltuol tebyg i gryman/ bwmerang.



# Mudo Cam wrth Gam

Prosiect Geo-leolydd BTO




Aildynnwyd gyda chaniatâd Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain (BTO) / ewch i www.bto.org i gael diweddariad.

# Ffeithiau cyffredin am Wenoliaid Du



Mae Gwennol Ddu wedi rhannu ein hadeiladau am ganrifoedd.

## Meistri yr awyr

Dim ond i fridio y mae Gwenoliaid Duon y glanio; maent yn bwyta, paru a hyd yn oed yn cysgu ar yr adain, gydag oes hir, hyd at 20 mlynedd. Gallant gyrraedd cyflymder o bron 70mya.

## Cartrefi yn yr uchelfannau

Maent yn nythu mewn tyllau bach, craciau a bylchau dan deils to, yn ein adeiladau, gan ffafrio mannau tywyll, amgaeedig.

## Taith oes epig

Mewn un oes, mae un Gwennol Ddu yn hedfan pellter tebyg i fynd i'r lleuad ac yn ôl fwy na wyth gwaith.

## Teyrngarwch di-ildio

Bydd pâr yn dychwelyd i'r un safle nyth am oes. Maent mor deyrngar fel y gallant anafu eu hunain yn ceisio dychwelyd i nyth sydd wedi eu flocio.

## Magu'r genhedlaeth nesaf


Fel arfer mae Gwenoliaid Duon yn dodwy 2-3 wy, gyda chywion yn ymddangos erbyn diwedd Gorffennaf neu ddechrau Awst. Os yw bwyd yn brin, gall cywion fynd i gyflwr o "syrthni" i oroesi nes bod yr oedolion yn dychwelyd.

## Rhieni diwyd

I fwydo eu cywion, gall oedolion hedfan dros 500 milltir y dydd, gan ddal hyd at 1,000 o bryfed hedfan mewn cwdyn bwyd arbennig.

## Hyfforddi ar gyfer hedfan

Cyn iddynt adael y nyth, mae cywion yn gwneud **"ymarferion"** tu mewn i'r blwch i adeiladu'r nerth maent ei angen ar gyfer hedfan am y tro cyntaf.







# Ble mae Gwenoliaid Duon yn nythu?

Mae Gwenoliaid Duon yn **“ffyddlon i safle”**, gan olygu eu bod yn dychwelyd i’n union yr un lle flwyddyn ar ôl blwyddyn. Dyma’r tair ffordd mwyaf cyffredin y maent yn gwneud cartref yn Sir Fynwy:



## Angen cadw agennau naturiol

Mae safleoedd mewn adeiladau carreg hŷn, ond gellir hefyd ddefnyddio adeiladau modern. Dim ond bwlch maint blwch matsis mae Gwenoliaid Duon ei angen i wasgu i ofod nythu tywyll a diogel.



## Blychau allanol i Gwennol Ddu

Opsiwn **“ôl-adeiladu”** gwych ar gyfer cartrefi presennol. Caiff y blychau pren neu eco-blastig hyn eu gosod yn uchel dan fondo, yn ddelfrydol ar wal sy’n wynebu’r gogledd.



## Lliniaru drwy osod blychau Gwennol Ddu neu friciau integredig ar gyfer Gwennol Ddu

Y safon aur ar gyfer adeiladau newydd neu estyniadau. Mae’r rhain yn friciau gwag a gaiff eu hadeiladu’n syth i’r wal yn ystod gwaith adeiladu. Maent yn barhaol, heb fod angen eu cynnal a chadw ac yn rhoi insiwleiddiad rhagorol i’r adar.

# Cyngor da arbenigol ar gyfer gosod blychau Gwennol Ddu

## Yn agos at gytref bresennol o Gwennol Ddu

Mae Gwenoliaid Duon yn hoffi ardaloedd cyfagos i ffurfio cytref, lle mae Gwenoliaid Duon yn sgrechian heibio neu o leiaf Gwenoliaid Duon yn hedfan yn uchel uwchben yn yr awyr.

## Lleoliad

Yn ddelfrydol gosodwch 2-3 blwch, gan osgoi mannau agored, gwyntog, gwlyb, poeth neu oer. Peidiwch â'u rhoi yn syth uwchben ffenestri neu ddrysau.

## Creu stribed glanio fach

Gallwch hefyd wneud cwpan nyth gyda phlu a'i gosod tu mewn i'r flwch, ar y man pellaf o'r twll, fel nyth dechreuol.



## Gosod galwr Gwennol Ddu i hybu llwyddiant

Mae hyn yn atgynhyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn nythod naturiol, lle mae Gwennol Ddu yn galw o'r tu mewn i'r nyth i ddenu cymar. Mae amserydd yn defnyddiol i osod y galwr.

## Yr amserau galw gorau: Gwawr a gwyll

Chwaraewch alwadau Gwennol Ddu adeg y wawr (6-9am) a'r gwyll (6-9pm), mis Mai i mis Awst. Unwaith y mae Gwenoliaid Duon wedi gadael, llenwch y tyllau mynediad (e.e. gyda sbwng) i atal adar eraill rhag defnyddio'r blwch. Gosodwch flychau i ddrudwy ac adar y to hefyd, os oes gennych amser.

## Diogel rhag ymosodiad

Diogelwch rhag ysglyfaethwyr yn clwydo, tebyg i wiwerod, brain a sguthanod, a gadael tua 5 metr o ofod awyr glir o amgylch y blwch. Rhowch y blwch bellter o goed, ysgolion, polion ffôn, ceblau a phlanhigion dringo.

## Iechyd a Diogelwch

Gofynnir i chi ddilyn yr holl ganllawiau ar iechyd a diogelwch cyfarpar ac offer wrth osod neu wirio blwch Gwennol Ddu a dilyn unrhyw gyfarwyddiadau gan y gwneuthurydd. Osgowch darfu ar gytrefau presennol o wenoliaid du neu glwydfannau ystlumod.

# Lleoliad delfrydol yn agos at gytref bresennol o Gwennol Ddu




## Wynebu'r Gogledd

Iawn

## Wynebu'r Gorllewin

Dim ond os oes cysgod da.



## Wynebu'r Dwyrain

Dim ond os oes cysgod da.

## Wynebu'r De

Osgoi

Cafodd y llun ei ysbrydoli gan www.Swift-conservation.org.uk

# Cornel y Plant

## 1 Ar ba restr 'Adar o Gonsyrn Cadwraeth' mae Gwenoliaid Duon?

- **A** Rhestr wyrdd (dim consyrn) ☐
- **B** Rhestr oren (peth consyrn) ☐
- **C** Rhestr goch (consyrn mawr) ☐

## 2 Sut siâp sydd ar Gwenoliaid Duon pan maent yn hedfan?

- **A** Bwmerang ☐
- **B** Saeth ☐
- **C** Ffrosbo ☐

## 3 Pa mor gyflym y gall Gwenoliaid Duon hedfan?

- **A** 30 mya ☐
- **B** 50 mya ☐
- **C** 70 mya ☐

## 4 Pam fod cywion yn gwneud 'ymarferion' yn y nyth?

- **A** I fod y cryfaf a chael eu bwydo yn gyntaf ☐
- **B** I baratoi eu hadenydd am hedfan ymhell heb stopio ☐
- **C** I ymestyn ar ôl bod yn gaeth yn y nyth ☐

## 5 Pa mor bell mae'r rhan fwyaf o Gwenoliaid Duon yn hedfan mewn oes?

- **A** Hanner ffordd i'r lleuad ac yn ôl ☐
- **B** 1 trip i'r lleuad ac yn ôl ☐
- **C** 4 trip i'r lleuad ac yn ôl ☐

## 6 Pa mor aml mae Gwenoliaid Duon yn glanio heblaw am nythu?

- **A** Llawer o weithiau ☐
- **B** Byth ☐
- **C** Ychydig o weithiau ☐

Atebion: C, A, C, B, C, C

# Chwilair Gwennol Ddu

A fedrwch chi ddod o hyd i'r 10 gair yma?

**GWENNOLDDU**
**GOSTYNGIAD**
**PRYDAIN**
**YMARFERION**
**ACROBAT**
**ADEILAD**
**SAITHDEG**
**AFFRICA**
**TYLLAU**
**HELP**

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| H | H | H | M | W | W | S | W | X | S | N | K | O | I | I |
| P | E | V | A | C | F | O | Q | P | M | J | N | G | E | A |
| P | L | V | C | G | W | E | K | P | E | C | L | T | O | A |
| J | P | T | R | O | G | W | E | N | N | O | L | D | D | U |
| E | T | Y | O | S | P | A | F | F | R | I | C | A | R | T |
| G | D | L | B | T | Q | H | S | O | U | U | Y | C | U | M |
| Y | D | L | A | Y | R | J | N | A | L | U | X | H | R | A |
| A | D | A | T | N | E | I | G | T | I | X | Q | S | K | T |
| D | M | U | P | G | Q | O | T | P | L | T | D | O | E | O |
| E | U | G | R | I | C | V | H | V | O | R | H | U | E | P |
| I | Y | E | Y | A | Y | S | T | R | N | Z | G | D | I | C |
| L | F | Z | D | D | N | H | R | F | M | M | X | F | E | Z |
| A | Y | M | A | R | F | E | R | I | O | N | E | Q | Y | G |
| D | K | U | I | T | Q | J | W | H | S | D | H | A | N | O |
| N | B | H | N | E | X | Q | O | A | W | S | J | L | X | Q |

# Sut y gallwch helpu



## Achub safleoedd nythu

Peidiwch â llenwi tyllau bach, craciau a bylchau mewn adeiladau – maent yn 'ddrysau blaen' i Gwenoliaid Duon. Osgowch flocio nythod Gwenoliaid Du gyda sgaffaldau rhwng mis Mai a mis Awst.



## Gosod blwch Gwenoliaid Du

Rhowch flwch ar wal sy'n wynebu'r gogledd, yn ddelfrydol yn agos at gytref presennol Gwennol Ddu. Defnyddiwch alwr ac amserydd, a'i chwarae adeg y wawr a'r gwyll, Mai – Awst.



## Cyfrif Gwenoliaid Du

Anfonwch wybodaeth at Swiftmapper. Dim ond Gwenoliaid Duon sy'n bridio mewn safleoedd nyth naturiol neu flychau Gwenoliaid Duon y dylid eu cofnodi, ac nid grwpiau o Gwenoliaid Duon yn sgrechian a welir ar uchder to.



## Hybu eu bwyd

Mae pwll neu ardd gyfeillgar i beillwyr yn rhoi'r pryfed maent eu hangen i fwydo eu cywion.



## Gwenoliaid Du ar lawr

**(Gwisgwch fenig diogelu, diogeliad llygad a masg a golchi eich dwylo wedyn)**

Mae Gwenoliaid Du angen gofal arbenigol. Rhowch y Gwenoliaid Duon mewn flwch gydag awyriant at dywel. Cysylltwch cyn gynted ag sydd modd â Swift & Swallow SOS ar Facebook neu filfeddyg. **PEIDIWCH** ceisio taflu neu ryddhau'r Gwenoliaid Duon o uchder na bwydo'r aderyn.

## Cysylltwch os oes gennych unrhyw gwestiynau

**E-bost: Localnature@monmouthshire.gov.uk**

Gwybodaeth gyffredinol ar wenoliaid ddu::

- www.facebook.com/groups/swiftsos
- www.swift-conservation.org
- www.swiftmapper.org.uk

Grwpiau Gwennol Ddu Sir Fynwy:

- Gwenoliaid Duon y Fenni
- Gwenoliaid Duon Brynbuga
- Gwenoliaid Duon Trefynwy
- Gwenoliaid Duon Cas-gwent

Gwefan Gwenoliaid Cyngor Sir Fynwy:

monmouthshire sir fynwy
WcVA CGGC
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government